COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR / O BELL AR 1 CHWEFROR 2023, AM 10:00 O'R GLOCH

Presennol

Y Cynghorydd – M LEWIS – Cadeirydd

Y Cynghorwyr

R Williams, JE Pratt, MJ Kearn, RJ Smith, RM James, RJ Collins,
HT Bennett, AR Berrow, PW Jenkins, H Griffiths,
J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

K Evans, A Lee, M Pitman, S Griffiths

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

I Williams, SJ Bletsoe

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet dyddiedig 17 Ionawr 2023.

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **DIWYGIAD ARFAETHEDIG I AMODAU TRWYDDED CERBYD HACNAI, AMODAU CERBYD HURIO PREIFAT AC AMODAU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Pwyllgor yr amodau ychwanegol a ganlyn i amodau'r Drwydded Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad y ceir ei deitl uchod:<br><br>*1. Yn achos Trwyddedai/Perchnogion sy'n rhentu, prydlesu, llogi neu fenthyca eu [Cerbyd Hacni] [Cerbyd Hurio Preifat], rhaid i'r Trwyddedai/Perchennog ddarparu a chadw cofrestr addas lle bydd ef/hi yn cofnodi'r wybodaeth ganlynol, yn ymwneud â manylion y gyrrwr y mae'r cerbyd wedi'i rentu, ei logi, ei brydlesu neu ei fenthyg iddo.*<br>*a) Enw a chyfeiriad y gyrrwr.* |

| | |
|---|---|
| | *b) Rhif y Bathodyn a dyddiad dod i ben y Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat sy'n ymwneud â'r gyrrwr.*<br>*c) Rhif plât a rhif cofrestru'r cerbyd sy'n cael ei rentu, ei logi, ei brydlesu neu ei fenthyg.*<br>*d) Dyddiad(au) ac amser(oedd) y caiff y cerbyd ei rentu, ei logi, ei brydlesu neu ei fenthyg gan y gyrrwr.*<br><br>*Rhaid cadw'r cofnodion am 12 mis o leiaf, mewn trefn gronolegol a rhaid eu dangos ar gais i swyddog awdurdodedig y Cyngor neu gwnstabl heddlu i'w harchwilio.*<br><br>2. *Rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig, o fewn saith niwrnod:*<br><br>*a) os ceir ef/hi yn euog o unrhyw drosedd neu os bydd yn derbyn rhybudd, hysbysiad cosb benodedig neu unrhyw fath arall o hysbysiad cosb.*<br>*b) os bydd ef/hi yn destun unrhyw ymchwiliad troseddol sydd yn mynd ymlaen.*<br>*c) os caiff ef/hi wybod am ganlyniad unrhyw ymchwiliad troseddol sydd yn mynd ymlaen.*<br><br>3. *Rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig, o fewn saith niwrnod:*<br><br>*a) i unrhyw newid neu ddirywiad yn ei (h)iechyd y mae angen hysbysu'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) amdano.*<br>*b) Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded bresennol gyflwyno tystiolaeth feddygol o'i addasrwydd parhaus i yrru, gan ei Feddyg Teulu neu ymgynghorydd (fel y bernir yn briodol), yn ystod cyfnod y drwydded. Bydd y trwyddedai'n cyflwyno tystiolaeth feddygol o'r fath i'r Cyngor o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i dderbyn cais.* |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |